Archwilio Cymru
Audit Wales

# Briff Archwilio – Adolygu'r trefniadau gwneud penderfyniadau

Cyngor Sir Ceredigion

Blwyddyn archwilio: 2025-26

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2025

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ceredigion fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol: Adran 17 (2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac i unrhyw drydydd parti mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Pam mae hyn yn bwysig | | 4 |
| Beth fyddwn ni'n edrych arno | | 4 |
| Sut y byddwn yn gwneud ein gwaith | | 6 |
| Adrodd ar ein canfyddiadau | | 6 |
| Amserlen | | 7 |
| Cysylltiadau Archwilio Cymru | | 8 |
| Atodiadau | | 9 |
| 1 | Cwestiynau a meini prawf yr archwiliad | 10 |
| 2 | Sut y byddwn yn casglu tystiolaeth | 15 |
| 3 | Hysbysiad prosesu teg | 17 |

# Pam mae hyn yn bwysig

1 Mae gwneud penderfyniadau yn drefniant corfforaethol allweddol ar gyfer pob cyngor. Mae trefniadau gwneud penderfyniadau priodol yn bwysig oherwydd eu bod yn helpu cynghorau i wneud dewisiadau prydlon, gwybodus sy'n defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol. Mae rolau clir, gwybodaeth o ansawdd da a her briodol yn lleihau'r risg o benderfyniadau gwael, methiant ariannol, neu her gyfreithiol. Maent hefyd yn cryfhau atebolrwydd ac ymddiriedaeth y cyhoedd trwy ei gwneud yn glir pwy sy'n gyfrifol am benderfyniadau a pham y cawsant eu cymryd.

2 Felly, oherwydd bod trefniadau gwneud penderfyniadau yn ganolog i'r ffordd y mae Cyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) yn sicrhau ac yn dangos gwerth am arian, mae'r adolygiad hwn yn elfen bwysig o waith sicrwydd yr Archwilydd Cyffredinol.

# Beth fyddwn ni'n edrych arno

## Amcan

3 Ein nod ar gyfer yr archwiliad hwn yw cael sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau gwneud penderfyniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau.

## Cwestiynau

4 Bydd yr archwiliad hwn yn mynd i'r afael â'r cwestiwn cyffredinol: A yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau gwneud penderfyniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?

5 Mae **Atodiad 1** yn cynnwys y cwestiynau archwilio manwl.

## Cwmpas

6 Rydym yn cynnal yr archwiliad hwn o dan y dyletswyddau/pwerau a gynhwysir yn Adran 17 2(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

7 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

8 Bydd yr archwiliad hwn yn cwmpasu'r cwestiynau canlynol:

- A oes gan y Cyngor drefniadau gwneud penderfyniadau clir?
- A yw trefniadau'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod tryloywder ac atebolrwydd yn ei benderfyniadau?
- A yw'r wybodaeth a ddarperir i gynghorwyr yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i gefnogi swyddogion a chynghorwyr yn eu penderfyniadau?
- A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau gwneud penderfyniadau?

9 Yn yr adolygiad hwn, ni fyddwn yn edrych ar rinweddau penderfyniadau polisi unigol nac yn cynnal adolygiad manwl o bwyllgorau craffu neu reoleiddio.

## Meini Prawf

10 Mae'r meini prawf archwilio ar gyfer yr adolygiad hwn wedi'u llywio trwy ein gwybodaeth archwilio gronnus. Maent yn cwmpasu gofynion statudol ac arfer da mewn perthynas â'r canlynol:

- y fframwaith gwneud penderfyniadau;
- gwybodaeth a ddarperir i gynghorwyr, a
- effeithiolrwydd trefniadau gwneud penderfyniadau.

11 Mae **Atodiad 1** yn dangos sut mae'r meini prawf yn gysylltiedig â'r cwestiynau archwilio.

# Sut y byddwn yn gwneud ein gwaith

## Dulliau

12 Bydd yr archwiliad yn defnyddio'r dulliau canlynol:

- adolygiad o ddogfennau allweddol y Cyngor, gan gynnwys ei gyfansoddiad;
- adolygiad o sampl o bapurau, cofnodion a hysbysiadau penderfyniadau pwyllgor o wefan y Cyngor;
- arsylwi ar ystod o gyfarfodydd pwyllgor drwy we-ddarllediadau o wefan y Cyngor; a
- cyfweliadau â swyddogion ac aelodau.

## Iaith

13 Rhowch wybod i ni ddewisiadau iaith y rhai sy'n rhan o'r archwiliad. Byddwn yn ceisio ein gorau glas i ddarparu ar gyfer y dewisiadau hyn os byddwch yn ein hysbysu wrth sefydlu gwaith maes.

# Adrodd ar ein canfyddiadau

14 Bydd yr archwiliad yn cynhyrchu adroddiad byr a fydd yn nodi ein canfyddiadau.

15 Pan fyddwn yn cyhoeddi ein canlyniadau archwilio terfynol, byddwn yn gofyn i chi ymateb i'n canfyddiadau a'n hargymhellion. Byddwn yn darparu Ffurflen Ymateb Rheoli i chi lle gallwch nodi ymateb arfaethedig eich sefydliad i bob argymhelliad.

16 Er mwyn cydymffurfio â'n Cod Ymarfer Archwilio, rhaid i dimau archwilio:

- adolygu ymateb eich sefydliad; a
- datgan wrth y pwyllgor goruchwylio perthnasol[1] a ydynt yn fodlon bod canfyddiadau ac argymhellion yr archwilio wedi'u hystyried yn briodol.

17 Os nad ydym yn fodlon, byddwn yn gwneud swyddogion yn ymwybodol o'n pryderon. Bydd hyn yn eich galluogi i ystyried pa newidiadau a allai fod eu hangen.

18 Os, yn dilyn hyn, nid ydym yn dal i fod yn fodlon bod y canfyddiadau a'r argymhellion wedi'u hystyried yn briodol, mae'r Cod Ymarfer Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i ni ei wneud yn hysbys i'r pwyllgor perthnasol pan fydd yn cyfarfod i dderbyn yr allbwn archwilio a'r Ffurflen Ymateb Rheoli.

## Amserlen

19 Mae **Arddangosyn 1** yn dangos amserlen lefel uchel y prif gamau archwilio.

**Arddangosyn 1: amserlen archwilio**

| Cam | Dyddiad |
|---|---:|
| Cyhoeddi briff archwilio terfynol | Ebrill 2026 |
| Casglu tystiolaeth | Ebrill – Mai 2026 |
| Cyhoeddi allbwn drafft | Mehefin 2026 |
| Cyhoeddi allbwn terfynol | Awst 2026 |

[1] Yng Nghyngor Sir Ceredigion, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw hwn.

# Cysylltiadau Archwilio Cymru

20 Mae **Arddangosyn 2** yn nodi'r tîm Archwilio Cymru a fydd yn gweithio ar yr archwiliad hwn.

**Arddangosyn 2: Cysylltiadau Archwilio Cymru**

| Enw | Manylion cyswllt |
|---|---|
| Gary Emery, Cyfarwyddwr Archwilio | Gary.Emery@archwilio.cymru |
| Euros Lake, Rheolwr Archwilio | Euros.Lake@archwilio.cymru |
| Alison Lewis, Arweinydd Archwilio | Alison.Lewis@archwilio.cymru |
| Rachel Harries, Uwch Archwilydd | Rachel.Harries@archwilio.cymru |

# Atodiadau

# 1 Cwestiynau a meini prawf archwilio

A yw’r Cyngor wedi rhoi trefniadau gwneud penderfyniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf |
|---|---|
| 2.1 A oes gan y Cyngor drefniadau gwneud penderfyniadau clir? | • Mae’r Cyngor wedi nodi’r paramedrau’n glir ar gyfer gwneud penderfyniadau a’r mathau o benderfyniadau sy’n cael eu dirprwyo a’r rhai a wneir gan y Cyngor Llawn, y Cabinet a phwyllgorau eraill.<br>• Mae gan y Cyngor Gynllun Dirprwyo sy’n nodi’r broses yn glir y ar gyfer gwneud a chofnodi penderfyniadau dirprwyedig.<br>• Mae’r Cyngor wedi nodi rolau a chyfrifoldebau cynghorwyr a swyddogion yn glir wrth wneud penderfyniadau.<br>• Mae gan bwyllgorau Cabinet a Chraffu raglenni gwaith diweddar sydd wedi eu cyhoeddi, ac mae’r rhain ar gael yn hawdd i gynghorwyr a’r cyhoedd.<br>• Mae’r Cyngor wedi nodi ei broses ar gyfer galw penderfyniadau i mewn yn glir.<br>• Mae gan y Cyngor drefniadau i hwyluso craffu cyn penderfyniad.<br>• Mae trefniadau clir ar gyfer datgan a rheoli gwrthdaro buddiannau.<br>• Mae rolau swyddogion statudol yn glir.<br>• Mae gan y Cyngor reolau a gweithdrefnau clir sy’n llywodraethu cyfarfodydd (cyfarfodydd corfforol, hybrid ac ar-lein yn unig) ac mae’r rheolau hyn yn cael eu nodi ar ddechrau cyfarfodydd, gan gynnwys trefniadau ar gyfer unrhyw golli cysylltedd.<br>• Mae trefniadau clir ar gyfer pleidleisio ar benderfyniadau. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf |
| --- | --- |
| 2.2 A yw trefniadau'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod tryloywder ac atebolrwydd yn ei benderfyniadau? | • Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r trigolion a'r grwpiau rhanddeiliaid hynny a allai gael eu heffeithio gan ei benderfyniadau arfaethedig, i geisio eu barn.<br>• Mae cynghorwyr a swyddogion yn dangos dealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys eu rôl mewn pwyllgorau penodol a/neu eitemau agenda.<br>• Cynhelir cyfarfodydd yn gyhoeddus oni bai bod rhesymau da dros gyfrinachedd (cyhoeddir y rhesymau). Mae'r Cyngor yn dilyn gofynion cyfreithiol priodol ar gyfer eitemau sydd wedi'u heithrio / eitemau a gynhelir mewn sesiwn breifat.<br>• Mae'r agendâu/adroddiadau ar gyfer pwyllgorau yn cael eu cyhoeddi yn unol â gofynion cyfreithiol a gofynion cyfansoddiad y Cyngor.<br>• Mae cyfarfodydd â chworwm yn unol â chyfansoddiad y Cyngor. Nid yw cyfarfodydd yn cael eu canslo'n rheolaidd oherwydd nad oes digon yna.<br>• Mae craffu yn cael ei werthfawrogi fel cyfraniad cadarnhaol i lunio a gwella penderfyniadau ac mae'n cael cyfle i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau.<br>• Mae galwadau i mewn yn anaml ac nid ydynt yn cael eu hystyried fel y ffordd safonol o herio gwneud penderfyniadau.<br>• Mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau ar eitemau yn unol â'r blaenraglenni gwaith cyhoeddedig. Nid yw eitemau'n cael eu gohirio'n gyson.<br>• Mae rhesymu clir dros benderfyniadau mewn cofnodion cyhoeddus.<br>• Mae perthnasoedd ymhlith a rhwng cynghorwyr a swyddogion yn adeiladol.<br>• Mae dadl a her adeiladol pan fydd penderfyniadau'n cael eu hystyried.<br>• Wrth ddod i benderfyniadau, mae cynghorwyr yn rhoi sylw i'r cyngor a roddir gan swyddogion, yn enwedig y cyngor a roddir gan swyddogion statudol.<br>• Mae ystyriaeth weithredol o'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac effeithiau perthnasol eraill fel cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf |
|---|---|
| | • Mae pob cyfranogwr yn gallu cyfrannu at gyfarfodydd, gan gynnwys wrth ymuno o bell.<br>• Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i'r cyhoedd fynychu/arsylwi cyfarfodydd cyhoeddus.<br>• Mae gwe-ddarllediadau o gyfarfodydd ar gael yn fyw ac i'w gweld yn y cyfarfodydd canlynol ac mae polisi cytunedig ar gyfer pa mor hir y mae gwe-ddarllediadau ar gael yn archif y Cyngor.<br>• Mae'r mynychwyr yn gallu cymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn ôl eu dewis, a darperir cyfieithiad.<br>• Mae'r cadeirydd yn sicrhau bod cyfarfodydd pwyllgor yn dilyn gweithdrefnau, bod pwyllgorau'n ystyried eitemau yn unol â'u cylch gorchwyl.<br>• Mae ymddygiad cynghorwyr a swyddogion yn y pwyllgor yn unol â safonau ymddygiad y Cyngor. Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael yn effeithiol â materion ymddygiad gwael mewn pwyllgorau.<br>• Mae pwyllgorau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i wneud rhywbeth gweithredol yn hytrach na dim ond derbyn eitemau i'w nodi.<br>• Mae'r Cyngor yn cyhoeddi penderfyniadau dirprwyedig yn unol â gofynion ei gyfansoddiad.<br>• Mae penderfyniadau dirprwyedig yn nodi sail y penderfyniad yn glir. |
| 2.3 A yw'r wybodaeth a ddarperir i gynghorwyr yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus? | • Mae adroddiad ysgrifenedig yn cyd-fynd ag eitemau ar yr agenda sy'n nodi'r rôl y gofynnir i'r pwyllgor ymgymryd ag ef yn glir ac sy'n unol â thermau cylch gorchwyl y pwyllgor.<br>• Mae adroddiadau'n glir ac yn gytbwys, ac yn hawdd i'w deall ac yn briodol i'r gynulleidfa a fwriadwyd. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf |
|---|---|
| | • Mae adroddiadau'n cynnwys, lle bo hynny'n briodol, dadansoddiad gwrthrychol a thrwyadl o amrywiaeth o opsiynau gan gynnwys effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth, goblygiadau ariannol a gwerth am arian, perfformiad gwasanaeth a risg.<br>• Mae adroddiadau yn nodi goblygiadau perthnasol sy'n gyffredin i'r rhan fwyaf neu'r holl benderfyniadau megis:<br>– cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy;<br>– cydraddoldeb;<br>– Cymraeg;<br>– bioamrywiaeth; a<br>– dyletswydd economaidd-gymdeithasol.<br>• Mae'r adroddiadau'n nodi a yw'r ymgynghoriad/ymgysylltu wedi'i gynnal ac, os felly, yn cynnwys canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw. |
| 2.4 A oes gan y Cyngor drefniadau i gefnogi swyddogion a chynghorwyr yn eu penderfyniadau? | • Mae'r Cyngor yn cyfathrebu'r gwerthoedd a'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan ei gynghorwyr, ei uwch swyddogion a'i staff.<br>• Mae cynghorwyr wedi derbyn hyfforddiant priodol i'w galluogi i gymryd rhan yn briodol yn nhrefniadau gwneud penderfyniadau'r Cyngor (e.e. datganiadau o fuddiant, cod ymddygiad, hyfforddiant penodol i bwyllgorau, megis cynllunio, safonau, GDPR, cydraddoldeb, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac ati).<br>• Darperir cefnogaeth effeithiol i gadeiryddion pwyllgorau gan swyddogion y Cyngor i'w cefnogi yn eu rôl. Mae cadeiryddion wedi derbyn hyfforddiant i'w helpu i ddeall a chyflawni eu rôl.<br>• Mae'r Cyngor yn hyrwyddo ac yn cefnogi rôl a chyfrifoldebau ei swyddogion statudol. Mae gan swyddogion statudol y gallu i adolygu a chyfrannu at adroddiadau yn ôl yr angen er mwyn cyflawni eu rolau.<br>• Mae gan gynghorwyr fynediad at gyngor priodol y tu allan ac yn ystod cyfarfodydd pwyllgor ar weithdrefnau a rheolau gwneud penderfyniadau. |

| | |
|---|---|
| 2.5 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau gwneud penderfyniadau? | • Gofynnwyd i gynghorwyr roi eu barn am drefniadau gwneud penderfyniadau'r Cyngor a'r gefnogaeth maen nhw'n ei dderbyn. Defnyddir hyn i lunio hyfforddiant a llywio newidiadau i drefniadau'r Cyngor.<br>• Mae'r Cyngor yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau gwneud penderfyniadau yn rheolaidd ac yn gweithredu ar ei ganfyddiadau.<br>• Mae cyfansoddiad, cynllun dirprwyo a gweithdrefnau ariannol y Cyngor yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru. |

# 2 Sut y byddwn yn casglu tystiolaeth

## Cais am ddogfennau

Byddwn yn darparu dogfen ar wahân sy'n amlinellu'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi ein cwestiynau a'n meini prawf archwilio. Sylwch y gellir gofyn am dystiolaeth ychwanegol yn ystod yr archwiliad. Os oes unrhyw un o'r dystiolaeth a restrir ar gael ar-lein, rhannwch y dolenni perthnasol. Yn ogystal, darparwch unrhyw ddogfennau eraill rydych chi'n credu a allai fod yn berthnasol.

## Cyfweliadau

Mae **Arddangosyn 3** yn rhestru'r bobl yr ydym am eu cyfweld. Byddwn yn cysylltu â chi i drefnu dyddiadau ac amseroedd cyfleus ar gyfer y cyfweliadau hyn pan fyddwn yn dechrau'r cam casglu tystiolaeth. Byddwn yn cynnal y cyfweliadau yn rhithwir.

**Arddangosyn 3: pobl i'w cyfweld**

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Eifion Evans | Prif Weithredwr |
| Y Cynghorydd Bryan Davies | Arweinydd y Cyngor |
| Duncan Hall | Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) |
| Elin Prysor | Swyddog Monitro |
| Lowri Edwards | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Y Cynghorydd Gareth Davies | Aelod Cabinet dros Gyllid a Gwasanaethau Caffael |
| Y Cynghorydd Elaine Evans | Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol |
| Y Cynghorydd Chris James | Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Dysgu |
| Alan Davies | Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |

# 3 Hysbysiad prosesu teg

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych am sut mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn prosesu gwybodaeth bersonol a gesglir mewn cysylltiad â'n gwaith.

## Pwy ydym ni a beth rydyn ni'n ei wneud

Mae gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnwys archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu'r staff a'r adnoddau i'w alluogi i gyflawni ei waith. Mae "Archwilio Cymru" yn nod masnach Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n hunaniaeth ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

## Dibenion y prosesu

Byddwn yn defnyddio data personol wrth arfer ein pwerau a'n dyletswyddau, sy'n ymwneud yn bennaf ag archwilio cyrff cyhoeddus a gweithgareddau i gefnogi gwaith o'r fath.

## Swyddog Diogelu Data

Gellir cysylltu â'n Swyddog Diogelu Data dros y ffôn ar 029 2032 0500 neu drwy e-bost: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

## Cyfreithiau perthnasol

Rydym yn prosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y DU. Ein seiliau cyfreithlon ar gyfer prosesu yw'r pwerau a'r dyletswyddau a nodir yn Neddfau Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013, Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a deddfwriaeth amrywiol sy'n sefydlu cyrff cyhoeddus penodol,  megis Deddf Safonau Gofal 2000.

Ceir rhagor o fanylion yn ein cyhoeddiad, Canllawiau ar ddeddfwriaeth archwilio cyhoeddus Cymru, sydd ar gael ar ein gwefan.

Yn dibynnu ar y pŵer neu'r swyddogaeth benodol, mae'r seiliau statudol hyn yn Erthygl 6(c) ac (e) o GDPR y DU—prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol.

Pan fyddwn yn prosesu data categori arbennig, y sail gyfreithiol ychwanegol ar gyfer prosesu hyn fel arfer fydd Erthygl 9(2)(g) o GDPR y DU (ynghyd â pharagraff 6 Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 2018) sy'n ymwneud ag arfer swyddogaeth statudol am resymau o fudd cyhoeddus sylweddol.

## Sut rydym yn casglu eich data personol

Efallai y bydd y data personol yr ydym yn ei gasglu a'i brosesu fel rhan o'n gwaith yn cael ei gasglu gennych yn uniongyrchol (e.e. os ydym yn cysylltu â chi i ofyn cwestiynau penodol i chi neu i gael rhagor o wybodaeth mewn cysylltiad â'n gwaith), neu gan gyrff perthnasol, gan gynnwys y rhai yr ydym yn eu harchwilio, trwy arfer hawliau mynediad yr Archwilydd Cyffredinol.

## Pwy fydd yn gweld y data?

Bydd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a staff perthnasol Swyddfa Archwilio Cymru, fel y tîm astudio, fynediad at yr wybodaeth a ddarperir gennych. Efallai y bydd eich data yn cael ei rannu'n fewnol o fewn Archwilio Cymru at y dibenion a ddisgrifir yn yr hysbysiad hwn.

Efallai y bydd ein hadroddiad cyhoeddedig yn cynnwys rhywfaint o'ch gwybodaeth, ond byddwn yn cysylltu â chi cyn cyhoeddi unrhyw wybodaeth sy'n eich adnabod chi—gweler hefyd "eich hawliau" isod.

Efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda:

- Uwch reolwyr yn y corff (cyrff) a archwiliwyd i'r graddau y mae hyn yn angenrheidiol ar gyfer arfer ein pwerau a'n dyletswyddau;
- Rhai cyrff cyhoeddus eraill/cyrff adolygu gwasanaethau cyhoeddus eraill megis Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Arolygiaeth Gofal Cymru (Gweinidogion Cymru), Arolygiaeth Iechyd Cymru (Gweinidogion Cymru), Estyn ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, pan fo'r

gyfraith yn caniatáu neu'n ei gwneud yn ofynnol i hyn, megis o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Pa mor hir rydyn ni'n cadw'r data

Yn gyffredinol, byddwn yn cadw eich data am chwe blynedd, er y gall hyn gynyddu i 25 mlynedd os yw'n cefnogi adroddiad cyhoeddedig—byddwn yn cysylltu â chi cyn cyhoeddi unrhyw wybodaeth sy'n eich adnabod chi—gweler hefyd "eich hawliau" isod. Ar ôl 25 mlynedd, mae'r cofnodion naill ai'n cael eu trosglwyddo i Archif Genedlaethol y DU neu eu dinistrio'n ddiogel. Yn ymarferol, ychydig iawn o wybodaeth bersonol sy'n cael ei chadw y tu hwnt i chwe blynedd.

## Ein hawliau

Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawliau i wybodaeth, esboniad a chymorth o dan baragraff 17 o atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 52 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, adran 26 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac adran 98 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein taflen Hawliau Mynediad sydd ar gael ar ein gwefan. Gall fod yn drosedd, y gellir ei gosbi â dirwy, i berson fethu â darparu gwybodaeth sy'n dod o fewn hawliau mynediad Archwilydd Cyffredinol Cymru, ond nid yw trosedd o'r fath yn berthnasol i arolygon o'r cyhoedd yn gyffredinol, nad ydynt yn cael eu cynnal gan ddefnyddio'r hawliau mynediad statudol uchod.

## Eich hawliau

Mae gennych hawliau i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol gyfredol a gedwir amdanoch chi ac i wrthwynebu prosesu data sy'n achosi niwed a gofid diangen a sylweddol.

I gael copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi neu i drafod unrhyw wrthwynebiadau neu bryderon, ysgrifennwch at y Swyddog Gwybodaeth, Swyddfa Archwilio Cymru, 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ neu e-bostiwch swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru. Gallwch hefyd gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data yn y cyfeiriad hwn.

Gallwch hefyd gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael rhagor o wybodaeth am gyfraith diogelu data, neu i gwyno am sut mae eich data personol

yn cael ei drin yn: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF, neu drwy e-bost: casework@ico.gsi.gov.uk neu dros y ffôn 01625 545745.

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.